

# Atodiad i Nodyn Cyngor 6:

## Paratoi mynegai'r cais i gyd-fynd â chais NSIP

**Cyflwyniad** Mae'r ddogfen hon yn atodiad i Nodyn Cyngor 6: Paratoi a chyflwyno dogfennau cais.

Taenlen Excel yw mynegai'r cais lle mae'r Ymgeisydd yn rhestru dogfennau'r cais a gwybodaeth gysylltiedig gan ddefnyddio'r gwerthoedd yn y gwymprestr a bennwyd o flaen llaw neu destun rhydd, fel y bo'n briodol.

Dylid cyflwyno mynegai'r cais yn electronig ar ffurf y gellir ei golygu gyda'r cais, ac fe'i defnyddir i fewnforio'r cais yn effeithlon i'n system rheoli dogfennau, ac i'r wefan os derbynnir y cais i'w archwilio.

Heb fynegai'r cais, gallai fod oedi yn y broses fewnforio, ac efallai y bydd rhaid i ni gysylltu â chi i egluro'r dogfennau a ddarparwyd.

### Pwyntiau allweddol

- O ganlyniad i'r broses trosi ffeiliau a ddefnyddir wrth fewnforio, ni ddylai teitlau dogfennau a disgrifiadau o ddogfennau gynnwys nodau arbennig, megis:  
& , ' \ / ?  
Bydd cynnwys unrhyw un o'r rhain yn cynhyrchu gwallau wrth fewnforio a fydd yn oedi'r broses.
- Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael at ffeiliau'n haws pan fyddant ar ein gwefan, gofynnwn i chi gadw maint ffeiliau unigol i 50MB ar y mwyaf. Sylweddolwn na fydd hyn yn bosibl bob tro. Fodd bynnag, ystyriwch rannu'r ffeiliau mawr yn ffeiliau llai neu gyflwyno fersiwn gywasgedig (sy'n barod i'r we) o ddogfennau'r cais ar ffon ddata ar wahân<sup>1</sup> yn ogystal â'r fersiwn anghywasgedig. Os na wneir hyn, efallai y gofynnwn am fersiwn anghywasgedig o ddogfennau'r cais a allai achosi oedi wrth fewnforio'r dogfennau i'n system. Sylwer, ni ellir derbyn negeseuon e-bost sy'n fwy na 10MB.
- Caiff yr Ymgeisydd ofyn i'r dogfennau gael eu cyhoeddi pan gânt eu cyflwyno. Os na, bydd y cais yn cael ei gyhoeddi dim ond os  
caiff ei dderbyn i'w archwilio. Bydd y dogfennau ar gael ar ein gwefan y diwrnod pan wneir y penderfyniad ynghylch derbyn, neu'n fuan wedi hynny.
- Ni ddylai dogfennau gynnwys dolenni i ddogfennau cais eraill oherwydd bydd y dolenni'n cael eu torri pan gânt eu cyhoeddi. Byddai'n rhaid i ni ddychwelyd y dogfennau er mwyn i'r dolenni gael eu dileu ac i gyfeiriadau gael eu darparu yn eu lle.
- Peidiwch â chyflwyno'r fersiwn electronig o fynegai'r cais fel ffeil PDF oherwydd bydd angen i'r data yn y ffeil hon gael ei thrin i greu'r ffeil fewnforio, ac felly mae'n rhaid bod modd ei golygu.
- Er mwyn sicrhau y gellir cael at y dogfennau a gyhoeddir ar ein gwefan yn haws, gofynnwn i bob dogfen gael ei rhifo'n drefnus. Yn ddelfrydol, dylai teitlau'r ffeiliau gynnwys rhif ar y dechrau sy'n cyd-fynd â rhif y ffolder cyfatebol.

Ee:

<sup>1</sup> Er bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn gallu derbyn Cryno Ddisg (CD) neu Ddisg Amlbwrpas Electronig (DVD), mae'n well gennym beidio.

1.1 Ffurflen Gais, 1.2 Mynegai Cais  
Electronig, 2.1 Datganiad o  
Resymau

Mae'n ddefnyddiol i'r Arolygiaeth Gynllunio weld mynegai drafft yn gynnar fel y gallwn gynghori ar unrhyw faterion sy'n codi o ran

arferion enwi neu rifo. Gall hyn wneud y broses yn fwy effeithlon i'r Ymgeisydd a thîm yr achos.

Anfonwch fynegai drafft cyn gynted ag y bydd yn gyfleus.

---

## Esboniad o'r colofnau ym Mynegai'r Cais

Gweler hefyd Dabl 1 yn Nodyn Cyngor 6 – *Trefn awgrymedig y wybodaeth i'w chyflwyno gyda chais.*

**Cell B4 – Cyfanswm nifer y tudalennau yn y cais a'r dogfennau cysylltiedig a Chell B5 – Lleihad print cyffredinol**  
Defnyddir y wybodaeth hon yn fewnol gan yr Arolygiaeth.

**Colofn A – Math o Ddogfen** Defnyddir y data hwn yn fewnol ac nid yw'n cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Defnyddiwch y gwymprestr yn unig er mwyn osgoi gwallau ac oedi yn ystod y broses rheoli dogfennau. Os na allwch ddod o hyd i fath o ddogfen sy'n cyfateb i'r ddogfen benodol, gadewch y gell yn wag. Rhowch adborth i ni ynghylch unrhyw fathau o ddogfennau yr ystyriwch eu bod ar goll o'r rhestr.

**Colofn B - Ffolder** Defnyddiwch y gwymprestr gwerthoedd i ddatgan pa ffolder y credwch y dylai'r ffeil gael ei storio ynddi. Defnyddiwn y data hwn i sicrhau bod y dogfennau'n ymddangos o dan y penawdau cywir ar ein gwefan.

**Colofn C – Disgrifiad a chrynodeb o'r cynnwys** Rhowch ddisgrifiad mewn iaith glir i'w gyhoeddi ar ein gwefan.

**Colofn D – Cyfeirnod neu rif cynllun/lluniad** Rhowch eich cyfeirnodau.

**Colofn E – Enw ffeil electronig** Mae'n rhaid rhoi enwau llawn y ffeiliau, gan gynnwys y math o ffeil (ee .pdf, .gif). Mae'n rhaid i'r enwau fod yn union yr un fath â'r ffeiliau a gyflwynwyd.

**Colofn F – Rheoliad APFP** Nodwch ba Reoliad sy'n berthnasol i'r ddogfen.

**Colofn G – Brasamcan o nifer y tudalennau.** Defnyddir y data hwn yn fewnol.

**Colofn H – Angen copi caled?** *Peidiwch â chwblhau'r golofn hon, at ddefnydd mewnol yn unig.* Os bydd angen copi caled ar yr Arolygiaeth, defnyddiwn y golofn hon i ofyn amdano.

Os byddwch yn cael unrhyw broblemau neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau yn ymwneud â mynegai'r cais neu ddogfennau cysylltiedig, cysylltwch â thîm yr achos.

### Gwybodaeth ychwanegol

Yr Arolygiaeth Gynllunio, Temple Quay House, Temple Quay, Bryste BS1 6PN

E-bost: [enquiries@planninginspectorate.gov.uk](mailto:enquiries@planninginspectorate.gov.uk)

Rhif ffôn: 0303 444 5000

Gwefan: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/>